



# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

2011 mccc 1

**RHAN 4**

SAFONAU

**PENNOD 6**

HYSBYSIADAU CYDYMFFURFIO

*Rhoi hysbysiadau cydymffurfio*

**45 Rhoi hysbysiadau cydymffurfio i unrhyw berson**

- (1) Dim ond os yw person (P) yn agored i orfod cydymffurfio â safonau (gweler Pennod 3) y caiff y Comisiynydd roi hysbysiad cydymffurfio i P.
- (2) Dim ond os yw safon benodol a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1)—
  - (a) yn gymwysadwy i P (gweler Pennod 4), a
  - (b) yn benodol gymwys i P (gweler Pennod 5),y caiff hysbysiad cydymffurfio a roddir i P nodi, neu gyfeirio at, safon benodol.
- (3) Os yw'r Comisiynydd yn rhoi hysbysiad cydymffurfio i P, rhaid i'r Comisiynydd hefyd—
  - (a) rhoi copi o unrhyw god ymarfer perthnasol a ddyroddir o dan adran 68 i P, a
  - (b) rhoi gwybod i P am yr hawl i herio o dan Bennod 7.
- (4) Am ddarpariaeth ynglŷn â rhoi hysbysiadau cydymffurfio i gontractwyr, gweler adran 48.

**46 Diwrnodau gosod**

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys o ran pob safon a bennir mewn hysbysiad cydymffurfio a roddir i berson.

- (2) Rhaid i'r hysbysiad ddatgan y diwrnod gosod neu'r diwrnodau gosod.
- (3) Rhaid i'r diwrnod gosod, neu'r cynharaf o'r diwrnodau gosod, ddod ar ôl diwedd y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau ar y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad.
- (4) Yn yr adran hon ystyr “diwrnod gosod” o ran safon yw—
  - (a) y diwrnod oddi ar bryd y mae'n ofynnol i berson gydymffurfio â'r safon, neu,
  - (b) y diwrnod oddi ar bryd y mae'n ofynnol i berson gydymffurfio â'r safon mewn modd penodol.
- (5) Am ddarpariaeth ynglŷn â rhoi hysbysiadau cydymffurfio i gontractwyr, gweler adran 48.

#### **47 Ymgynghori**

- (1) Cyn rhoi hysbysiad cydymffurfio i berson, rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori â'r person.
- (2) Ond nid yw is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ymgynghori â pherson ar unrhyw fater os yw'r Comisiynydd wedi ei fodloni bod y person hwnnw eisoes wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriad ar y mater hwnnw, neu wedi cael cyfle i wneud hynny, mewn cysylltiad ag ymchwiliad safonau (gweler Pennod 8).
- (3) Nid yw methiant y person i gymryd rhan mewn ymgynghoriad yn atal y Comisiynydd rhag rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw.

#### **48 Rhoi hysbysiadau cydymffurfio i gontractwyr**

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys (ynghyd ag adrannau 45 a 46) mewn perthynas â pherson neilltuedig sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd (y “gwasanaethau perthnasol”) o dan gytundeb, neu'n unol â threfniadau, a wneir gydag awdurdod cyhoeddus (y “contract perthnasol”).
- (2) Dim ond—
  - (a) os yw'n ofynnol i'r awdurdod cyhoeddus gydymffurfio â'r safon berthnasol wrth ddarparu'r gwasanaethau perthnasol i'r cyhoedd (neu y byddai wedi bod yn ofynnol i'r awdurdod cyhoeddus wneud hynny pe bai'n darparu'r gwasanaethau hynny i'r cyhoedd),
  - (b) os gwnaed y contract perthnasol ar neu ar ôl diwrnod gosod yr awdurdod cyhoeddus, ac
  - (c) os yw diwrnod gosod y person neilltuedig yn dod ar neu ar ôl diwrnod gosod yr awdurdod cyhoeddus,y caiff hysbysiad cydymffurfio a roddir i'r person neilltuedig nodi, neu gyfeirio at, safon benodol (y “safon berthnasol”) mewn perthynas â darparu'r gwasanaethau perthnasol o dan y contract perthnasol.
- (3) Rhaid i'r Comisiynydd sicrhau bod y gofyniad am i'r person neilltuedig gydymffurfio â'r safon berthnasol (sy'n codi yn rhinwedd bod hysbysiad cydymffurfio yn cael ei roi yn unol ag is-adran (2)) yr un fath â'r gofyniad, neu heb fod yn fwy na'r gofyniad, am i'r awdurdod cyhoeddus gydymffurfio â'r safon.
- (4) Mae i ymadroddion a ddefnyddir yn yr adran hon ac yn Atodlen 8 yr un ystyr yn yr adran hon ag yn Atodlen 8.

(5) Yn yr adran hon—

ystyr “diwrnod gosod yr awdurdod cyhoeddus” (“*public authority’s imposition day*”) yw'r diwrnod, neu'r cynharaf o'r diwrnodau, y mae'n ofynnol i awdurdod cyhoeddus gydymffurfio â'r safon berthnasol;

ystyr “diwrnod gosod y person neilltuedig” (“*qualifying person’s imposition day*”) yw'r diwrnod, neu'r cynharaf o'r diwrnodau, a nodir yn yr hysbysiad cydymffurfio a roddir i'r person neilltuedig yn ddiwrnod y mae i fod yn ofynnol i'r person neilltuedig gydymffurfio â'r safon berthnasol mewn perthynas â darparu'r gwasanaethau perthnasol o dan y contract perthnasol.